

Cyfadrann Addysg ac Addysg Gydol Oes

Directorate of Education and Lifelong Learning



Model Polisi Camddefnyddio Sylweddau i Ysgolion a Lleoliadau

Awdur	Adam Thomas
Ymgynghorwyr	UDRh
Pasiwyd gan UDRh (Dyddiad)	Mehefin 2018
Cyhoeddwyd (Dyddiad)	Mehefin 2018
Adolygiad Nesaf (Dyddiad)	Mehefin 2021

A greener place
Man gwyrddach



*This publication is available in Welsh, and in other languages and formats on request.
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.*

1.0	Cyflwyniad.....	Error! Bookmark not defined.
2.0	Egwyddorion	Error! Bookmark not defined.
	Gweithredu'r Polisi	4
3.0	Addysgu a Dysgu	Error! Bookmark not defined.
	Cwricwlwm	Error! Bookmark not defined.
	Trefniadaeth y cwricwlwm Addysg Camddefnyddio Sylweddau	
	Adnoddau a ddefnyddir i ategu'r ddarpariaeth Addysg Camddefnyddio Sylweddau	6
	Trefniadaeth y cwricwlwm Addysg Camddefnyddio Sylweddau	7
	Adnoddau a ddefnyddir i ategu'r ddarpariaeth Addysg Camddefnyddio Sylweddau	8
4.0	Cynnwys Asiantaethau Allanol	
5.0	Ymateb i Ddigwyddiadau a Drwgdybiaeth o ran Sylweddau	8
	Gwaharddiadau a Chymorth	9
	Cyfathrebu.....	Error! Bookmark not defined.
	Delio â'r Cyfryngau	10
	Datganiad Cydraddoldeb	10
	Monitro'r Polisi.....	11
	Atodiad 1 - Ffynonellau Gwybodaeth a Chefnogaeth.....	12
	Atodiad 2 – Canllaw staff i'w harddangos mewn ardaloedd cyhoeddus yn yr ysgol/lleoliad	Error! Bookmark not defined.
	Atodiad 3 – Cofnodi Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau .	Error! Bookmark not defined.
	Atodiad 4 – Gwybodaeth i Rien/ Gofalyddion.....	18
	Atodiad 5 - Canllawiau Disgyblion ar Gamddefnyddio Sylweddau yn yr Ysgol/Lleoliad.....	20

1.0 Cyflwyniad

Sylwedd cemegol yw cyffur sy'n achosi newid mewn cyflwr emosiynol, gweithredu'r corff neu ymddygiad unigolyn. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys llawer o sylweddau efallai nad ydynt yn cael eu hystyried fel cyffuriau ar unwaith, fel toddyddion, alcohol, tybaco a chaffein.

Dengys canfyddiadau arolygon a gynhaliwyd ledled Cymru, ac yn lleol, bod camddefnyddio sylweddau yn fygythiad mawr i unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Un o'r nodweddion sy'n peri'r pryder mwyaf y mae arolygon wedi'u nodi yw bod camddefnyddio sylweddau yn ymddangos i fod yn effeithio'n gynyddol ar boblogaeth iau.

Mae'r polisi hwn wedi cael ei lywio gan waith partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol, yr Heddlu ac Ysgolion Iach ac fe'i bwriedir i gynorthwyo ein hysgol/lleoliad i:

- Ymateb i unrhyw ddigwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau a all ddigwydd ar eiddo'r ysgol/lleoliad;
- Ymateb i unrhyw faterion diogelu sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau gan blentyn* neu rywun arall.

Datblygwyd y polisi hwn yng nghyd-destun "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed", a gyhoeddwyd yn 2008. Y canllawiau hyn yw strategaeth camddefnyddio sylweddau 10 mlynedd Llywodraeth Cymru sy'n ceisio gosod agenda cenedlaethol clir ar gyfer mynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru, a lleihau'r niwed hwn. Mae'r polisi hwn hefyd yn rhybuddio'r darllenydd am y sylweddau a'r materion sy'n achosi pryder yn lleol yng Nghaerffili. Mae'r Strategaeth yn manylu ar ddull o fynd i'r afael â'r amrywiaeth llawn o sylweddau sy'n cael eu camddefnyddio ac mae'n cwmpasu:

- Tybaco gan gynnwys dulliau amgen megis e-sigarêts a phibellau anweddu
- Alcohol
- Cyffuriau anghyfreithlon fel heroin, cocên, MDMA / ecstasi, amffetaminau, LSD a chanabis
- Sylweddau Seicoweithredol Newydd megis cymysgeddau llysieuol a all cael eu smygu (Spice) a phowdrau (Gogaine)
- Meddyginiaethau ar gael ar bresgripsiwn yn unig, megis meddyginiaeth yn seiliedig ar opiadau (Codeine / Tramadol), Benzodiazepines (Diazepam / Valium), meddyginiaeth gwrth-bryder (Xanax / Alprazolam), meddyginiaeth Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (Ritalin) a meddyginiaeth Gwrth-Epileptig (Gabapentin / Pregabalin)
- Meddyginiaethau dros y cownter megis paratoadau wedi'u seilio ar codeine (Solpadine), meddyginiaethau Annwyd a Ffliw (Nyrs Nos), Gwrth-histaminau Tawelu (Nytol) a moddion llacio (Pseudoephedrine/ephedrine)
- Sylweddau anweddol fel tanwydd erosolau, bwtan, toddyddion, gludion ac ocsid nitraidd

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â pholisïau eraill yr ysgol/lleoliad ac mae ganddi gysylltiadau penodol â'r rhai sy'n ymwneud â diogelu ac ymddygiad.

Darperir ffynonellau gwybodaeth a chymorth sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn **Atodiad 1**.

Mae gan ein hysgol/lleoliad gyfrifoldeb i addysgu disgyblion, fel bod eu gweithredoedd yn seiliedig ar ddeallusrwydd a gwybodaeth gywir, ac i'w galluogi i gael rheolaeth dros eu ffordd o

fyw. Mae'r polisi hwn wedi ystyried yn llawn Cylchlythyr 107/2013 Llywodraeth Cymru *Canllaw ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013.

*mae plentyn/plant yn cyfeirio at bob plentyn a pherson ifanc

Y derminoleg fwyaf poblogaidd ar gyfer Sylweddau Seicoweithredol Newydd yw 'penfeddw cyfreithiol'. Fodd bynnag, gall yr ymadrodd olaf atgyfnerthu'r canfyddiad mai sylwedd llai niweidiol ydyw, neu'n un diogel. Yn hyn o beth, mae'r ysgol hon/lleoliad hwn yn cyfeirio at Sylweddau Seicoweithredol Newydd. Ni chânt eu cyfeirio atynt fel 'penfeddw cyfreithiol' o dan unrhyw amgylchiadau.

Mae ein safle ysgol/lleoliad yn gyfan gwbl yn lle na chaniateir smygu, gan gynnwys e-sigaréts a phibellau anweddu. Gwaherddir ysmegu i bob *plentyn, aelod staff ac ymwelwyr ar y safle. Bydd gwaharddiadau a chanlyniadau yn dilyn yn unol â pholisi rheoli ymddygiad, gweithdrefnau disgyblu a phrotocolau perthnasol eraill yr ysgol/lleoliad.

Mae angen addysg barhaus ar blant, staff a llywodraethwyr/aelodau'r pwyllgor rheoli, fel eu bod yn gallu adnabod arwyddion gweithgaredd sy'n gysylltiedig â sylweddau ac yn gallu cymryd y camau priodol. Mae pawb yn ein hysgol / lleoliad yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn.

Mae rhieni/gofalyddion yn chwarae rhan lawn wrth gyflwyno'r ymatebion i ddigwyddiadau ac mae ganddynt ymwybyddiaeth o'r rhaglenni addysg y bydd eu plant yn derbyn yn ein hysgol/lleoliad. Mae rhieni/gofalyddion yn bartneriaid o'r ysgol/lleoliad a byddant yn cael eu cynnwys o'r cychwyn mewn unrhyw beth sy'n effeithio ar eu plentyn.

2.0 Egwyddorion

Mae'r polisi hwn yn pwysleisio rôl fugeiliol yr ysgol/lleoliad a dull rhagweithiol o ymdrin â chamddefnyddio sylweddau a'i chyfrifoldeb i ddarparu addysg briodol sy'n galluogi plant i wneud dewisiadau cadarnhaol a diogel. Mae'r Polisi hefyd yn cyflwyno barn glir ar gyfer delio ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn yr ysgol/lleoliad. Wrth ddatblygu'r polisi hwn, mae'r ysgol wedi ystyried ei chyfrifoldeb cyfreithiol, anghenion disgyblion, rhieni/gofalyddion, staff, aelodau/llywodraethwyr pwyllgor rheoli, a'r gymuned leol.

Yr adnodd mwyaf effeithiol mewn addysg sylweddau i unrhyw ysgol/lleoliad yw'r disgyblion. Maent yn fwy tebygol o ddylanwadu ar eu cyfoedion na rhieni/gofalyddion neu staff. Rydym yn ceisio creu hinsawdd yn ein hysgol/lleoliad lle mae disgyblion yn edrych allan am les disgyblion eraill. Anogir disgyblion i fod yn agored, a byddant yn cael gwybodaeth ac arweiniad trwy raglenni bugeiliol i hwyluso eu sgiliau dysgu a hunanamddiffyn.

Gall camddefnyddio sylweddau fod yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau penodol o bobl ifanc o ddemograffeg benodol. Bydd y polisi hwn yn sicrhau er bod yn rhaid ystyried amgylchiadau unigol, bydd staff yr ysgol yn dilyn dull cyson o weithredu o ran canfod a chefnogi materion gan staff ysgol/lleoliad. Yn hyn o beth, bydd yr holl ysgol/lleoliad yn gyson yn yr egwyddorion sy'n tanategu'r polisi hwn ac yn hyblyg o ran ymarfer er mwyn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau unigolion.

Mae'r ysgol/lleoliad yn gweithio mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol a Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru i drefnu a hwyluso hyfforddiant ar gyfer staff bugeiliol, staff priodol nad ydynt yn addysgu a llywodraethwyr.

Gweithredu'r Polisi

Dylai polisi ysgol/lleoliad camddefnyddio sylweddau fod yn berthnasol:

- Ar safleoedd ysgol/lleoliad;
- Tra bod disgyblion yn teithio i'r ysgol/lleoliad ac oddi yno;
- Yn ystod ymweliadau/teithiau oddi ar y safle.

3.0 Addysgu a Dysgu

Mae (**Nodwch enw'r ysgol / lleoliad**) yn cymryd mater camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys Sylweddau Seicoweithredol Newydd) o ddifrif ac yn ceisio rhoi addysg o ansawdd ar gamddefnyddio sylweddau i bob disgybl. Y nod yw grymuso plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau cyfrifol, gwybodus am sylweddau a, lle bo'n bosibl, gwrthsefyll y demtasiwn i'w defnyddio. Mae hyn yn cynnwys ysmegu sigarêts (gan gynnwys y defnydd o e-sigarêts a phibellau anweddu) ac yfed alcohol.

Mae'r ysgol / lleoliad yn ceisio darparu gwybodaeth gywir, ddiudedd am sylweddau i'w disgyblion, wedi'i haddysgu trwy ddull sgiliau bywyd fel elfen hanfodol o raglen ehangach sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen, Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a Gwyddoniaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae darparu Addysg Camddefnyddio Sylweddau yn yr ysgol yn cefnogi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan amddiffyn pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0-17 oed gyda'u hawliau dynol;

Erthygl 6: Mae gennych yr hawl i fywyd a thyfu fyny i fod yn iach.

Erthygl 19: Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel.

Erthygl 33: Dylech gael eich diogelu rhag cyffuriau peryglus.

Cwricwlwm – (*Ysgolion i addasu i'w darpariaeth eu hun o Addysg Camddefnyddio Sylweddau*)

Mae Addysg Camddefnyddio Sylweddau o fewn yr ysgol yn cael ei ddarparu yn bennaf fel rhan o raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae hefyd yn ffurfio rhan o gwricwlwm gwyddoniaeth statudol.

Lleoliad Ysgolion Cynradd

Nod addysg Camddefnyddio Sylweddau yw:

- I ddisgyblion ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau ac agweddau i werthfawrogi manteision dull byw iachus, hyrwyddo cyfrifoldeb tuag at y defnydd o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a chysylltu'r rhain i'w gweithredoedd eu hunain, nawr ac yn eu bywydau yn y dyfodol.

Rhoddir y cyfleoedd canlynol i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen:

- Datblygu dealltwriaeth am beryglon yn y cartref a'r amgylchedd allanol.
- Deall fod meddyginiaethau yn cael eu cymryd i wneud iddynt deimlo'n well a bod rhai cyffuriau yn beryglus.

Rhoddir y cyfleoedd canlynol i ddysgwyr yn CA2:

- Cymryd cyfrifoldeb cynyddol er mwyn cadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iachus.
- Teimlo'n gadarnhaol am eu hunain a bod yn sensitif tuag at deimladau eraill.
- Deall yr effeithiau niweidiol, i'w hunain ac i eraill, o dymbaco, alcohol, a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon.

Trefniadaeth y cwricwlwm Addysg Camddefnyddio Sylweddol

Enw ein Cydlynnydd ABCh yw:..... ac ef/hi sy'n gyfrifol am gynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm Addysg Camddefnyddio Sylweddau ar draws yr ysgol gyfan. Yn ein hysgol ni, rydym yn darparu Addysg Camddefnyddio Sylweddau trwy gyfrwng gwersi wedi'u cynllunio, yn ogystal â thrwy addysgu trawsgwricwlaidd cydlynol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r Prosiect Christopher Winter "*Teaching drug and alcohol with confidence in Primary Schools*" trwy'r ysgol gyfan i ddarparu tair gwers benodol i bob grŵp blwyddyn. Gweler trosolwg isod:

Blwyddyn 1: '*Medicines and People Who Help Us*':

Gwers 1: '*Staying healthy*', Gwers 2: '*Medicines*', Gwers 3: '*Who gives us medicines?*'

Blwyddyn 2: '*Keeping safe*':

Gwers 1: '*Risks*', Gwers 2: '*Hazardous substances*', Gwers 3: '*Safety rules.*'

Blwyddyn 3: '*Smoking*':

Gwers 1: '*Why people smoke?*' Gwers 2: '*Physical effects of smoking*', Gwers 3: '*No smoking.*'

Blwyddyn 4: '*Alcohol*':

Gwers 1: '*Effects of alcohol*', Gwers 2: '*Alcohol and risk*', Gwers 3: '*Limits to drinking alcohol*'.

Blwyddyn 5: '*Legal and Illegal Drugs*':

Gwers 1: '*Legal and illegal drugs*', Gwers 2: '*Attitudes to drugs*', Gwers 3: '*Peer pressure*'.

Blwyddyn 6: '*Preventing Early Use*':

Gwers 1: '*Cannabis*', Gwers 2: '*Volatile Substance Abuse*', Gwers 3: '*Help, advice and support*'.

Rydym yn croesawu mewnbwn ymwelwyr o asiantaethau allanol i ategu at ddarpariaeth graidd y staff dysgu. Mae ein hysgol wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan trwy gydol y flwyddyn academiaidd.

Gweler trosolwg isod:

Blwyddyn 1: *'People who help us'*

Blwyddyn 2: *'Who? What? Where? Take Care, Right or Wrong?'*

Blwyddyn 3: *'Sticks and Stones'*

Blwyddyn 4: *'TASK (tobacco, alcohol and solvent knowledge) Friend or Foe'*

Blwyddyn 6: *'It's your choice'*

Caiff yr holl ymwelwyr eu cefnogi yn yr ystafell ddosbarth gan athro/athrawes ac fe'u hysbysir am bolisi a chynllun gwaith Addysg Camddefnyddio Sylweddau'r ysgol.

Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 hefyd yn mynychu digwyddiadau'r Criw Hanfodol a'r cynhyrchiad 'Wings to Fly' bob blwyddyn.

Adnoddau a ddefnyddir i ategu'r ddarpariaeth Addysg Camddefnyddio Sylweddau

Caiff ABCh ei chyflwyno drwy'r adnodd Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol o Ddysgu yn wythnosol trwy'r ysgol, a pholisi Addysg Camddefnyddio Sylweddau ar wahân, a chynllun gwaith wedi'i ddatblygu i sicrhau bod Fframwaith ABCh Cymru yn cael ei chyflwyno'n llawn. Yn ychwanegol at hyn, mae'r ysgol yn defnyddio'r adnoddau canlynol i gyflwyno sesiynau penodol fel y nodwyd uchod:

- Prosiect Christopher Winter "Teaching drug and alcohol education with confidence in Primary Schools"
- Tacade "Keys to Smoking" a "Keys to Alcohol" ar gyfer plant 7 i 11 oed
- Pecyn cynllun gwers 'Cychwyn iach Cymru' Llywodraeth Cymru
- Dewislen Atodol ar Schoolbeat.org (Rhaglen Gyswilt yr Heddlu)
- DVD SENSE
- Adnodd Tyfu Fyny

Lleoliadau Ysgolion Uwchradd

Nod addysg Camddefnyddio Sylweddau yw:

- Grymuso plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau cyfrifol, gwybodus am sylweddau a ddefnyddir a/neu a gamddefnyddir yn y gymdeithas. (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 107/2013)

Rhoddir y cyfleoedd canlynol i ddysgwyr yn CA3:

- Deall yr effeithiau a'r risgiau, o ddefnyddio ystod o sylweddau cyfreithiol ac anghyfreithiol a'r cyfreithiau sy'n llywodraethu eu defnydd.
- Sut i ddefnyddio alcohol yn gyfrifol a risgiau goryfed.
- Y manteision o gael mynediad at wahanol ffynonellau gwybodaeth, cefnogaeth a chynghor.

Rhoddir y cyfleoedd canlynol i ddysgwyr yn CA4:

- Y canlyniadau tymor byr a hirdymor wrth wneud penderfyniadau ynghylch iechyd personol.

- Canlyniadau personol, cymdeithasol a chyfreithiol y defnydd o sylweddau cyfreithiol ac anghyfreithlon.
- Y sefydliadau statudol a gwirfoddol sy'n cefnogi iechyd a lles emosiynol.
- I fod yn hyderus wrth gael gafael ar gyngor iechyd proffesiynol a chymorth personol.
- Pwysigrwydd iechyd rhywiol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol gan gynnwys camfanteisio rhywiol posibl.

Trefniadaeth y cwricwlwm Addysg Camddefnyddio Sylweddau

Ein Cydlynnydd ABCh a enwir yw: a hwy sy'n gyfrifol am gynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm addysg CS. Yn ein hysgol ni, rydym yn darparu Addysg Camddefnyddio Sylweddau trwy gyfrwng gwersi ar wahân, wedi'u cynllunio, yn ogystal â thrwy addysgu trawsgwricwlaidd cydlynol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r cynllun gwaith *Prosiect Christopher Winter* ar draws yr ysgol i gyflwyno 3/4 o wersi penodol bob blwyddyn. Gellir gweld trosolwg isod:

Blwyddyn 7: Cyffuriau Cyfreithiol ac Anghyfreithiol:

Gwers 1: Cyffuriau Cyfreithiol ac Anghyfreithiol, Gwers 2: Cannabis, Gwers 3: Camddefnyddio Sylweddau Anwedddol

Blwyddyn 8: Cyffuriau a'u heffeithiau

Gwers 1: Sefyllfaoedd yn ymwneud â chyffuriau, Gwers 2: Effeithiau Corfforol, Emosiynol a Chymdeithasol, Gwers 3: Rheoli sefyllfaoedd sy'n ymwneud â chyffuriau, Gwers 4: Tybaco

Blwyddyn 9: Agweddau tuag at risg

Gwers 1: Archwilio barn am gyffuriau, Gwers 2: Cysylltu â'r gyfraith, Gwers 3: Goryfed mewn pyliau

Blwyddyn 10: Dewisiadau a Chyfrifoldebau

Gwers 1: Canlyniadau defnyddio cyffuriau, Gwers 2: Dewisiadau a chanlyniadau, Gwers 3: Iechyd rhywiol

Blwyddyn 11: Effaith ar fywyd oedolion

Gwers 1: Dylanwadau ar ymddygiad, Gwers 2: Effaith ar gymdeithas, Gwers 3: Perthnasoedd personol

Rydym yn croesawu cyfraniad ymwelwyr sydd o asiantaethau allanol i ategu'r gwaith craidd gan staff addysgu. Mae ein hysgol wedi ymrwymo'n llwyr i gyflwyno Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn ei gyfanrwydd trwy gydol y flwyddyn academiaidd. Gellir gweld trosolwg isod:

Blwyddyn 7: Newydd a Chas, Beth yw'r broblem felly, Meddwl am yfed

Blwyddyn 8: Bydd yn edifar gennych

Blwyddyn 9: Dwywaith y Broblem

Blwyddyn 10: Vanity Insanity, Class Act / DnA Day, Amrywiaeth Cymunedol – achubwch fi!

Caiff yr holl ymwelwyr eu cefnogi yn yr ystafell ddosbarth gan athro/athrawes ac fe'u hysbysir am bolisi a chynllun gwaith Addysg Camddefnyddio Sylweddau'r ysgol.

Adnoddau a ddefnyddir i ategu'r ddarpariaeth Addysg Camddefnyddio Sylweddau

Mae polisi a chynllun gwaith Addysg Camddefnyddio Sylweddau ar wahân wedi'i ddatblygu er mwyn sicrhau bod Fframwaith ABCh Cymru yn cael ei chyflwyno'n llawn. Yn ychwanegol at hyn, mae'r ysgol yn defnyddio'r adnoddau canlynol i gyflwyno sesiynau penodol fel y nodwyd uchod.

- 'Spiral Drug Education' Pecyn 1 a 2
- Hammered: Young People and Alcohol
- Pecyn Addysg Cannabis
- Pêl Ddal Cyffuriau
- Gêm Cardiau Ffeithiau Cyffuriau
- Dewislen Atodol Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (schoolBeat.org)
- 'Good Drug Dealer'

4.0 Cynnwys Asiantaethau Allanol

Mae rhaglenni camddefnyddio sylweddau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai hynny mewn grwpiau agored i niwed megis plant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi dechrau camddefnyddio sylweddau. Pan fo angen/pan yn briodol, datblygir cynllun unigol er mwyn diwallu anghenion plant penodol. Yn hyn o beth, mae'r ysgol hon/lleoliad hwn yn ceisio cefnogi unrhyw ddisgybl sydd â phroblemau sy'n gysylltiedig â sylweddau trwy ei system fugeiliol gadarn a pherthynas waith dda gydag asiantaethau allanol.

Pan fydd asiantaethau allanol yn darparu cyfleoedd dysgu sesiynol i ddisgyblion, bydd yr ysgol/lleoliad yn sicrhau'r canlynol:

- Bod yr ysgol/lleoliad a'r darparwr allanol wedi cytuno ar y nodau, y cynnwys a'r ymagwedd i'w mabwysiadu.
- Bod yr ysgol/lleoliad wedi gwirio bod gwaith yr asiantaeth yn hysbys iddynt ac yn cael ei ystyried yn briodol, mewn perthynas â gweithdrefnau diogelu/amddiffyn plant.
- Bod yr ysgol/lleoliad wedi hysbysu'r darparwr am unrhyw bolisiau ysgol/lleoliad perthnasol.
- Bod yr ysgol/lleoliad wedi cynllunio i'r darparwr gael cefnogaeth gefnogol gan athro bob amser trwy gydol yr ymweliad.

5.0 Ymateb i Ddigwyddiadau a Drwgdybiaeth o ran Sylweddau

Rhaid i'r holl staff fod yn barod ar gyfer digwyddiadau o weithgarwch sy'n gysylltiedig â sylweddau ymhlith ein disgyblion, nid yn unig yn eu bywyd cymdeithasol y tu allan i'r ysgol/lleoliad, ond o fewn yr ysgol/lleoliad ei hun. Mae troseddwyd yn targedu plant o oedran ysgol fel marchnad fregus, felly mae angen i ni fod yn wylidwrs ar ran ein disgyblion, gan ystyried y gallai disgyblion gael eu hecsbloetio a'u priodoli i fod yn ful cyffuriau.

Mae'n bwysig bod pawb yn yr ysgol/lleoliad, staff, llywodraethwyr/aelodau'r pwyllgor rheoli, disgyblion a staff nad ydynt yn addysgu yn gwybod beth yw'r polisi camddefnyddio sylweddau, beth i'w wneud ac yn arbennig at bwy i fynd pan mae digwyddiadau'n digwydd.

Y staff a ddynodwyd i drin sefyllfaoedd o'r fath yw:

(Mewnosodwch enw a swydd aelodau'r staff - Er enghraifft, Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, Penaethiaid Cynorthwyol, Penaethiaid Blwyddyn, Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant.

Bydd yr aelod/aelodau dynodedig o staff yn cadw cysylltiad agos â'r Cydlynnydd ABCh er mwyn sicrhau bod y rhaglen addysgol yn cadw ei berthnasedd i faterion cyfredol yn yr ardal. Bydd hyn yn galluogi'r sesiynau ABCh i ddarparu dadl strwythuredig gyfoes a fydd yn rhoi grym i ddisgyblion wneud dewisiadau priodol ymhellach. Yn ogystal, bydd y person dynodedig yn cadw gwybodaeth gyfoes o raglen a chynllun craidd cyswllt yr ysgol lle bo hynny'n briodol o fewn cwricwlwm camddefnyddio sylweddau'r ysgol.

Mae angen gweithredu ar unwaith pan fo risg glir o ran diogelwch. Er enghraifft:

1. Ymddengys bod oedolyn sy'n casglu plentyn neu berson ifanc dan ddylanwad diod neu gyffuriau.
Gweithred: rhoi gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol ar waith o ran amddiffyn plant, gan gynnwys yr Heddlu os yw'r oedolyn yn ymosodol.
2. Mae sylweddau yn cael eu cyflenwi/yn hawdd eu cael ar safle'r ysgol neu gerllaw.
Gweithred: cysylltwch â'r heddlu
3. Mae plentyn/person ifanc yn datgelu eu bod yn camddefnyddio cyffuriau neu fod eu rhiant neu aelodau eraill o'r teulu yn camddefnyddio cyffuriau.
Gweithred: cysylltwch â gwasanaethau cymdeithasol neu Gwent N-gage am gyngor arbenigol ar sut i ymateb.

Darperir arweiniad yn Atodiad 2 ynghylch y camau i'w cymryd os bydd aelod o staff yn dod ar draws digwyddiad o ddefnydd sylweddau yn yr ysgol/lleoliad. Mae hyn yn cynnwys cyngor mewn perthynas â thrin unrhyw sylweddau. Mae'r canllawiau hyn wedi'u lamineiddio a'u harddangos mewn ardaloedd priodol o gwmpas yr ysgol hon/lleoliad hwn.

Pan fydd gan aelod o staff achos rhesymol i gredu bod disgybl yn cario neu'n cuddio sylweddau anghyfreithiol, hyd yn oed os nad oes honiad o gamddefnyddio ar safle'r ysgol/lleoliad, gwneir her i'r disgybl. Bydd y disgybl a'u heiddo yn cael eu symud i fan priodol o'r ysgol/lleoliad sy'n sicrhau goruchwyliaeth gan staff ond preifatrwydd i ffwrdd o ddisgyblion eraill. Bydd uwch aelod o staff yn cael ei alw i gasglu gwybodaeth berthnasol gan y plentyn ym mhresenoldeb aelod arall o staff, a sicrhau bod unrhyw sylweddau a ganfyddir, wedi'u gwarchod yn briodol. Gofynnir i'r disgybl roi esboniad o'r pryder, a gofynnir iddo/iddi arddangos eu heiddo i'w gwirio gan staff yr ysgol/lleoliad. Os nad yw'r disgybl yn fodlon cydymffurfio â'r cais hwn, dylai'r disgybl aros yn y fan priodol tra bod yr ysgol/lleoliad yn cysylltu â'r Heddlu a'r rhieni/gofalyddion.

Gwaharddiadau a Chymorth

Mae'r ysgol / lleoliad hwn yn cydymffurfio â'r canllawiau canlynol a gymerwyd o Gylchlythyr 171/2015 Llywodraeth Cymru, *Gwaharddiadau o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion*:

Wrth benderfynu a ddylid gwahardd am drosedd sy'n gysylltiedig â chyffuriau ai peidio, dylai'r pennaeth roi ystyriaeth i bolisi cyhoeddedig yr ysgol ar gamddefnyddio sylweddau a dylai ymgynghori ag aelodau o staff yr ysgol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Bydd y penderfyniad, fodd bynnag, hefyd yn dibynnu ar union amgylchiadau'r achos a'r dystiolaeth sydd ar gael. Mewn rhai achosion gall eithrio am dymor penodol fod yn fwy priodol na gwaharddiad parhaol.

Mewn achosion mwy difrifol, dylid gwneud asesiad o'r digwyddiad yn erbyn y meini prawf a nodir ym mholisi'r ysgol. Dylai hyn fod yn ffactor allweddol wrth benderfynu a yw gwaharddiad parhaol yn gam gweithredu priodol.

Yng ngoleuni'r canllaw uchod, nid yw gwaharddiad yn ymateb awtomatig i broblemau gamddefnyddio sylweddau o fewn ein hysgol/lleoliad, rydym yn ymwybodol iawn fod rhaid cymryd i ystyriaeth amgylchiadau personol gwahanol y disgyblion wrth ystyried gwaharddiadau a mesurau diogelwch addas.

Cyfathrebu

Bydd athrawon dosbarth yn adrodd ar bob achos o gamddefnyddio sylweddau i'r Athro Dynodedig Uwch dros Amddiffyn Plant neu'r Pennaeth. Mae'n rhaid i bawb o'r staff ysgol ddeall y materion sy'n ymwneud â chyfrinachedd. Mae angen i ddisgyblion fod yn hyderus y bydd eu hawliau'n cael eu parchu, ond hefyd mai'r prif ffactor wrth warantu cyfrinachedd fydd diogelwch y disgybl bob amser. Mae staff yn derbyn canllawiau priodol ar faterion cyfrinachedd. Mae'r ysgol hon yn hyrwyddo diwylliant lle mae disgyblion yn ymwybodol eu bod yn gallu mynd at unrhyw aelod o staff â phroblem, a bod yn sicr ni fydd eu hymddiriedaeth yn cael ei cham-drin trwy wneud eu hunain yn fregus. Mae rhieni/gofalyddion yn ymwybodol o'r polisi bydd yr ysgol/lleoliad yn ei ddilyn yn achos digwyddiadau sy'n gysylltiedig â sylweddau. I'r perwyl hyn, maetaflen i rieni/gofalyddion a phlant, yn cael ei ddarparu yn **Atodiad 4**. Mae hyn wedi'i ddylunio i esbonio ymatebion yr ysgol/lleoliad a'i cyfrifoldebau wrth ddelio â materion camddefnyddio sylweddau. Darperir y daflen hon gan yr ysgol i rieni ar ddechrau taith ddysgu eu plant â'r ysgol hon.

Delio â'r Cyfryngau

Gall digwyddiadau defnyddio a chamddefnyddio sylweddau gael lefel uchel o sylw'r cyfryngau.

Os bydd yr ysgol/lleoliad yn derbyn ymholiadau o unrhyw ffynhonnell cyfryngau, bydd y Pennaeth yn cyfarwyddo'r newyddiadurwr neu'r gohebydd i;

Stephen Pugh
Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol, Gwasanaethau Corfforaethol
Cyfathrebu, Tŷ Penallta, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG
01443 864264 / pugh@caerffili.gov.uk

Ni chaiff enwau unigolion eu rhyddhau i'r cyfryngau o dan unrhyw amgylchiadau.

Datganiad Cydraddoldeb

Mae'r ysgol/lleoliad hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn gweithio'n weithredol yn erbyn pob math o wahaniaethu trwy hyrwyddo cysylltiadau da a pharch at ein gilydd yn ein cymuned a rhwng disgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr/aelodau'r pwyllgor rheoli a phartneriaid.

Byddwn hefyd yn gweithio i greu mynediad cyfartal i gefnogaeth, ar gyfer pawb, waeth beth fo'u tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu

rhywedd, credoau crefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, iaith Arwyddion Prydain neu unrhyw iaith arall, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu unrhyw reswm arall na ellir ei gyfiawnhau.

Monitro'r Polisi

Mae'n ofynnol i'r holl staff ddarparu llofnod i ddangos eu bod wedi darllen a deall y polisi hwn.

Mae'r Pennaeth yn sicrhau bod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw am unrhyw ddigwyddiadau. Bydd adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhannu â'r Llywodraethwr cyswllt Amddiffyn Plant/Aelod Pwyllgor Rheoli.

Bydd monitro effeithiol y Polisi yn ymgorffori arsylwadau gwersi Addysg Camddefnyddio Sylweddau sydd wedi digwydd a chaiff unrhyw fewnbwn trwy ddarparwyr allanol ei werthuso'n briodol. Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am oruchwylio cwblhau'r broses hon.

Dylid cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli ar ddiwedd y flwyddyn academaidd..

Polisi wedi'i Awdurdodi gan.....Cadeirydd y
Llywodraethwyr/Pwyllgor Rheoli

Polisi wedi'i Weithredu ganPennaeth

Dyddiad Gweithredu.....

Dyddiad Adolygu.....

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob dwy flynedd a'i ddiweddarau yng ngoleuni unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth

Atodiad 1 – Ffynonellau Gwybodaeth a Chefnogaeth

Sefydliad	Manylion Cyswllt
Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan	www.schoolbeat.org
Islawr Coed Duon Canolfan galw heibio gwybodaeth sydd ar agor i bawb 11-25 oed ac sy'n darparu cefnogaeth ac eiriolaeth.	01495 235511 @youth4u1
Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru	www.dan247.org.uk 0808 808 2234
FRANK Cyngor cyfeillgar a chyfrinachol i gefnogi unigolion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau	www.talktofrank.com SMS: 82111 Llinell gymorth am ddim 24/7: 0300 123 6600
Gwent N-gage Cefnogaeth cyffuriau ac alcohol i bobl ifanc (dan 18 oed) ar draws Gwent	www.choices.cymru 0333 320 2751
Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Gwent Help a chymorth i unrhyw un dros 18 sy'n pryderu am gamddefnyddio sylweddau	www.qdas.wales 0333 999 3577 01495 233403 (Coed Duon) 02920 868675 (Caerffili)
Helpa Fi i Stopio Cymorth am ddim i helpu i roi'r gorau i ysmegu	www.helpmequit.wales/cy/ 0333 320 2219
WEDINOS Rhaglen lleihau niwed, sy'n dadansoddi sylweddau ar gyfer eu hadnabod a nodi'u cynnwys	www.wedinos.org admin@wedinos.org

Atodiad 2 – Canllaw Staff i'w harddangos mewn ardal cyhoeddus yn yr ysgol/lleoliad

-Mewnosodwch enw a theitl, -- Bydd(Aelod o staff dynodedig) yn cysylltu â'r asiantaethau perthnasol allanol i ddechrau gweithrediad addas pan mae'n ofynnol. Serch hynny, ni ellir gor-bwysleisio effeithiolrwydd athrawon dosbarth sydd â pherthynas da gyda'i disgyblion. Maent yn amhrisiadwy wrth weithredu fel 'systemau rhybudd cynnar' er mwyn adnabod defnyddio sylweddau a chamddefnyddio sylweddau ymhlith disgyblion, ac er mwyn darparu clust cydymdeimlad i ddisgyblion a all fod yn swil wrth chwilio am gymorth i'w hunain neu eu ffrindiau. Dylai'r canllaw canlynol gael ei ystyried o fewn y cyd-destun hwn.

1. Aseswch a oes argyfwng meddygol. Os oes, galwch ambiwlans ar unwaith. Os yw'r disgybl yn gweld drychiolaethau, Peidiwch â Herio ei (d)datganiad neu ganfyddiadau. Gallai hyn fod yn beryglus. Ceisiwch symud y disgyblion i amgylchedd tawel, nad yw'n fygythiol.
2. Cysylltwch â'r athro Dynodedig AP neu'r Pennaeth yn syth. Byddant yn gwneud penderfyniad cynnar i hysbysu'r rhiant/gwarcheidwad. Mae bob amser yn ddoeth, pan fydd yr argyfwng gwreiddiol drosodd, i gysylltu â rhiant/gwarcheidwad i gael gwybodaeth ac i ymgynghori.
3. Os bydd unrhyw sylwedd yn cael ei ildio o wirfodd, atafaelwch a chadwch y sylwedd dan sylw a'r drosglwyddo i'r athro Dynodedig AP neu'r Pennaeth. Os credir bod sylweddau'n bresennol ond nid yw disgyblion yn cytuno i ildio eiddo, dylai'r disgybl gael ei gadw/chadw ar wahân tra bod yr Heddlu yn cael eu galw. Wrth gadw disgybl ar wahân, dylai fwy nag un oedolyn fod yn bresennol.
4. Mae'n rhaid i unrhyw sylweddau a adenillwyd gael eu cadw'n ddiogel hyd nes y gall yr Heddlu roi cyngor pellach.
5. Llenwch Ffurflen Gofnodi Camddefnyddio Sylweddau a sicrhewch ei bod yn cael ei phasio ar unwaith i'r athro Dynodedig AP neu'r Pennaeth.
6. Gwnewch benderfyniad cynnar o ran pa asiantaethau eraill y mae angen eu hysbysu/cynnwys hefyd. Er enghraifft, Swyddog Lles Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu a Seicolegydd Addysg.
7. Ymgynghorwch â Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol ynglŷn â goblygiadau cyfreithiol y sefyllfa. Hefyd dylid gwneud cais i'r Heddlu gasglu'r sylweddau amheus sydd wedi'u diogelu ar yr un diwrnod gwaith.
8. Penderfynwch a yw'r sefyllfa yn cyfiawnhau hysbysu'r boblogaeth gyffredinol/penodol o ddisgyblion.
9. Cysylltwch ag asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig ynglŷn â chwnsela tymor hwy i ddisgyblion, cyfranogiad teuluol, argaeledd gwasanaeth.
10. Ystyriwch a oes angen adolygiad o bolisi'r ysgol /lleoliad neu'r ddarpariaeth cwricwlwm o ganlyniad i'r digwyddiad.

Trin Sylweddau

Dylid cymryd gofal wrth drin unrhyw sylwedd yr amheuir ei fod yn gyffur. Os yw'n bosibl dylid gwisgo menig tafladwy. Cedwir y rhain â phecyn cymorth cyntaf

yn.....(**Nodwch y lleoliad gwirioneddol**) Os nad yw'r rhain ar gael, dylid cymryd gofal i olchi dwylo yn syth ar ôl eu trin.

Dylid trin nodwyddau a chwistrelli y gellir eu canfod ar safle'r ysgol/lleoliad yn ofalus iawn i osgoi anafiadau gan nodwyddau. I ddechrau bydd y Pennaeth a'r rheolwr safle yn gyfrifol am sicrhau bod y safle'n cael ei wneud yn ddiogel. Bydd y blwch gwaredu offer miniog, a gynlluniwyd yn benodol i gael gwared ar nodwyddau a chwistrelli wedi'i leoli yn

.....(**Nodwch y lleoliad gwirioneddol**) Dylai'r blwch gwaredu offer miniog wedi'i seilio bob amser gael ei storio mewn man diogel yn yr ysgol/lleoliad.

Os bydd unrhyw barti'n dioddef anaf gan nodwydd, dylid ceisio cyngor meddygol brys.

**Ymateb i Ddigwyddiadau sy'n Ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau
Beth i'w wneud pan:**

Mae disgybl yn ymddangos o dan ddylwad cyffuriau

Darganfyddir cyffuriau neu eitemau perthnasol a ddrwgdybir ar unrhyw eiddo a ddefnyddir

Datgelir gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau posib gan ddisgybl

1. Asesu'r digwyddiad.

Os oes angen argyfwng meddygol:

2. Ffoniwch am ambiwlans yn syth, parhau gyda thriniaeth cymorth cyntaf.
3. Peidiwch a Herio ei ddatganiad neu canfyddiadau.
4. Ceisiwch symud y disgybl i amgylchedd tawel, difygythiol.
5. Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Dynodedig neu'r Pennaeth yn syth am Amddiffyn Plant.
6. Swyddog Diogelu Dynodedig neu Bennaeth i gysylltu â rieni/gofalyddion am wybodaeth ac ymgynghoriad.

Os yw'n argyfwng nad yw'n frys.

1. Osogi cyhuddiadau, gall ymddygiad anarferol ymddangos am reswm arall.
2. Gwnewch y Swyddog Diogelu Dynodedig, Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth yn ymwybodol o'r sefyllfa.

1. Os fydd unrhyw sylwedd yn cael ei ildio yn wirfoddol, daliwch a chadwch y sylwedd penodol a'i drosglwyddo i Swyddog Diogelu Dynodedig neu'r Pennaeth.
2. Os y credir fod sylweddau yn bresennol ond nad yw disgyblion yn cytuno i ildio meddiannau, dylai'r disgybl gael ei gadw ar ben ei hun tra fod rhywun yn ffonio'r Heddlu..

Yn ystod cyfnod y mae'r disgybl ar ben ei hun, dylai mwy nag un oedolyn fod yn bresennol.

3. Dylai unrhyw sylweddau sy'n cael eu hadfer gael eu cadw mewn lleoliad diogel nes fod yr Heddlu yn gallu cyngori beth i'w wneud nesaf.

Cyfeiriwch at 'Handling of Substances', yn ogystal ag ystyried fod y sylwedd yn cael ei anfon at WEDINOS i gael ei ddadansoddi.

1. Ystyriwch natur a ffnhonell y gwybodaeth.
2. Ydy dull uniongyrchol yn berthnasol?
3. Anelwch am falans rhwng disgrisiwn proffesiynol a dyletswydd gofal.
4. Trafodwch gyda'r Swyddog Diogelu Dynodedig, Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth.
5. Ystyriwch os oes unrhyw faterion Diogelu?
6. Ystyriwch os oes unrhyw drosedd wedi cael ei gyflawni?
7. Ystyriwch y lleoliad?

1. Cwblhewch Ffurflen Cofnodi Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau a sicrhewch ei fod yn cael ei basio yn syth i'r Swyddog Diogelu Dynodedig neu'r Pennaeth ar gyfer Amddiffyn Plant.
2. Gwnewch penderfyniad cynnar pa asiantaethau eraill sydd angen eu hysbysu neu eu cynnwys hefyd.
3. Ymgynghorwch â Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol ynglŷn â goblygiadau cyfreithiol y sefyllfa. Gofynnwch i'r Heddlu gasglu'r sylweddau amheus a ddiogelwyd yr un diwrnod gwaith.
4. Cydlynwch ag asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig parthed cwnsela disgyblion hirdymor, cyfranogiad teuluol ac argaeledd gwasanaethau

Bydd y Pennaeth neu Swyddog Diogelu Dynodedig yn ystyried a ddylid hysbysu'r disgyblion a'r gymuned. Yn ogystal, adolygwch polisi'r vsqol a darpariaeth y cwricwlwm.

Ymdrin â Sylweddau

1. Os yn bosib, dylai menig tafladwy gael eu gwisgo. Cedwir y rhain o fewn y pecyn cymorth cyntaf. Os nad yw rhain ar gael, dylid cymryd gofal i olchi dwylo yn syth ar ôl cyffwrdd.
2. Dylai pob nodwydd a chwistrelli a ddarganfyddir ar eiddo'r ysgol/lleoliad gael ei drin gyda gofal mawr a'i symud yn ddiogel i flwch gwaredu wedi'i selio. Yn y lle cyntaf, mae'r Pennaeth a rheolwr y safle yn gyfrifol am sicrhau fod y safle yn cael ei wneud yn ddiogel.

Mae'r pecyn cymorth cyntaf wedi'i leoli yn **(Rhowch y lleoliad cywir).**

Mae'r blwch gwaredu wedi'i seilio wedi ei lleoli yn **(Rhowch y lleoliad cywir).**

Mewn achos o anaf nodwydd i unrhyw un o'r parti, dylid cael cyngor meddygol brys.

Cyfeiriwch at Atodiad 2 o fewn Polisi Camddefnyddio Sylweddau'r Ysgol am drosolwg llawn

Atodiad 3 – Cofnodi Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau

Ffurflen Cofnodi Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau

Yn _____ (Ysgol/Lleoliad)

Dyddiad y digwyddiad		Amser y digwyddiad		Lleoliad	
Staff sy'n gysylltiedig		Disgyblion sy'n gysylltiedig		Pobl eraill sy'n gysylltiedig	

Categori'r digwyddiadau cychwynnol (Rhowch gylch)

Ysbwriel sy'n gysylltiedig â chyffuriau/Paraphernalia	Meddiant	Cyflenwi
O dan ddylanwad	Nid yw'n ddysgwr/aelod	Honiad/amheuaeth
Disgrifiad o'r digwyddiad		
Camau a gymerwyd		Gan bwy
Cofnodwyd gan (Priflythrennau)		Swydd

A oes angen cyfeirio'r digwyddiad at Gwent N-gage (0333 320 2751)?	Oes / Nac Oes Dyddiad:
---	-------------------------------

Daethpwyd o hyd i sylwedd/eitem o bryder	Do / Naddo				
Disgrifiad o'r eitem					
Symudwyd gan		Llofnod		Amser	
Lleoliad wedi'i ddiogelu am		Llofnod		Amser	
Tystiwyd gan		Llofnod		Amser	

Cynrychiolydd Heddlu yn symud y sylwedd o safle'r ysgol/lleoliad:

Enw mewn Priflythrennau		Swydd	
Amser		Dyddiad	
Llofnod			

Atodiad 4 – Gwybodaeth i Rieni/ Gofalyddion

Mae gan yr ysgol/leoliad gyfrifoldeb i addysgu ein disgyblion, fel bod eu gweithredoedd yn seiliedig ar ddealltwriaeth a gwybodaeth gywir, i'w galluogi i gael rheolaeth dros eu ffordd o fyw.

Mae ein polisi Camddefnyddio Sylweddau wedi'i datblygu gan ddefnyddio Strategaeth 10 Mlynedd Llywodraeth Cymru "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed". Mae'r strategaeth yn cwmpasu:

Alcohol

Tybaco, gan gynnwys e-sigaréts a phibellau anweddu

Cyffuriau Anghyfreithiol - fel heroin, cocên, MDMA / ecstasi, amffetaminau, LSD a chanabis.

Sylweddau Seicoweithredol Newydd

Meddyginiaethau presgripsiwn yn unig - megis tawelyddion

Meddyginiaethau dros y cownter - megis paratoadau sy'n cynnwys codeine.

Sylweddau anweddol - fel tanwydd erosolau, bwtan, toddyddion, gludion ac ocsid nitraidd

Dylai rhieni/gofalyddion a disgyblion fod yn ymwybodol eu bod yn gallu mynd at unrhyw aelod o staff a chyfaddef pryder camddefnyddio sylweddau yn ddiogel. Bydd yr ysgol yn ceisio darparu cymorth a gwybodaeth, ac yn sicrhau cyfrinachedd cyn belled nad oes unrhyw bryderon Diogelu i unrhyw blentyn. Mae gwybodaeth a chymorth ar gael oddi wrth:

Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru
Gyfan: www.schoolbeat.org

Islawr Coed Duon:
01495 235511

Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol
Cymru:
www.dan247.org.uk
0800 6335588

FRANK: www.talktofrank.com
0300 123 660

Gwent N-gage (Dan 18 oed)
www.choices.cymru
0333 320 2751

GDAS: Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Gwent (18+) www.gdas.wales
0333 999 3577
01495 233403 (Coed Duon)
02920 868675 (Caerffili)

Helpa Fi i Stopio:
www.helpmequit.wales/cy/

Camddefnyddio Sylweddau Gwybodaeth ar gyfer Rhieni/Gofalyddion

Rhowch Logo'r Ysgol Yma

Yn ein hysgol/leoliad, rydym yn gwerthfawrogi ein plant ifanc a'u dyfodol. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi dylunio ein holl bolisiau i gadw ein disgyblion mor ddiogel â phosibl.

Fel Rhiant neu ofalydd ein disgyblion, mae gennych rôl hanfodol i'w chwarae. Mae'r ysgol/leoliad yn rhan o'ch cymuned ac rydych mor bwysig wrth ein helpu i gadw disgyblion yn ddiogel. Gobeithiwn y bydd y daflen hon yn egluro ein gweithdrefnau a'ch rôl ynddynt.

Mae Camddefnyddio Sylweddau yn broblem o fewn cymdeithas, ac ni chaiff ysgolion eu heithrio rhag hyn. Rydym yn ymwybodol iawn nad yw pryderon yn ymwneud â sylweddau anghyfreithlon yn unig. Mae'n rhaid i ni gadw gwyliadwriaeth a deialog agored â disgyblion er mwyn eu haddysgu i amddiffyn eu hunain.

Fel rhiant, rydym yn gobeithio y byddwch ein helpu yn ein dyletswydd i amddiffyn ein holl ddisgyblion. Os bydd angen i ni siarad â chi a'ch plentyn am gamddefnyddio sylweddau ni fydd unrhyw un yn ein hysgol yn eich barnu, na'n eich cyhuddo, mae angen i ni drafod y ffeithiau yn syml a phenderfynu a oes angen ychydig o help ychwanegol ar eich teulu efallai.

Yn y daflen hon rydym wedi amlinellu rhai o'r gweithdrefnau safonol y mae'n RHAID i staff eu dilyn.

Pan fydd gan staff yr ysgol bryderon am blentyn, fel arfer bydd y Pennaeth yn trafod hyn â'r rhiant, ond mewn rhai amgylchiadau ni fydd hyn yn bosibl a gellir galw'r Heddlu neu Wasanaethau Cymdeithasol yn lle hynny.

Ein prif bryder yw diogelwch y disgybl a gellir rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill os teimlwn fod disgybl mewn perygl.

Bydd staff yn:

- Asesu a oes argyfwng meddygol.
- Cysylltu â'r Athro Dynodedig AP neu'r Pennaeth yn ddi-oed.
- Atafael a chadw'r sylwedd dan sylw a'i drosglwyddo i'r athro Dynodedig AP neu'r Pennaeth.
- Gwneud penderfyniadau cynnar ynglŷn â chysylltu â rhieni a gofalwyr neu asiantaethau eraill.
- Sicrhau y cedwir cofnodion ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiadau.
- Trafod â disgyblion a rhieni/gofalwyr ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael.

Ni fydd staff yn:

- Canolbwyntio ar agwedd ddisgyblu camddefnyddio sylweddau ar safle'r ysgol.
- Ymddwyn mewn modd cyhuddgar tuag at y disgybl.
- Gofyn cwestiynau a allai ymyrryd ag ymchwiliad troseddol posibl.
- Trafod yr honiad ac eithrio â staff dynodedig.
- Addo cadw cyfrinachau

Nid yw unrhyw un o'r gweithdrefnau hyn yn ceisio achosi gofid neu drallod i chi fel rhieni/gofalwyr. Fe'u dyluniwyd i edrych ar anghenion eich plentyn.

Ni fydd y pennaeth yn gofyn i rieni cyn galw Gwasanaethau Cymdeithasol os:

- Oedd y rhiant yn gwybod am y pryderon ac ni wnaeth amddiffyn y plentyn
- Y rhiant yw achos y pryder
- Ni fyddai'r rhiant yn gallu trafod y pryder

Fel rhiant/gofalwr mae gennych rôl hanfodol i'w chwarae ym mhopeth y mae'r ysgol yn ei wneud, yn enwedig wrth sicrhau bod ein holl ddisgyblion yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn. Fel ysgol rydym yn gofyn i chi fel rhieni:

- Siarad â staff am unrhyw bryderon sydd gennych am eich plentyn
- Cofio bod yn RHAID i'r ysgol rannu pryderon am eich plentyn
- NI fydd yr ysgol yn eich barnu, ond efallai y bydd yn rhaid iddynt rannu gwybodaeth anodd
- Mae'n RHAID i'r ysgol flaenoriaethu diogelwch a lles disgyblion, ni allant gadw cyfrinachau gan asiantaethau eraill.

(Mewnosodwch Logo'r Ysgol)

Amcanion Craidd yr Ysgol:

1. Bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ysgol.
- 2: Darparu cwricwlwm a fydd yn addysgu disgyblion ynglŷn â phob agwedd ar addysg camddefnyddio sylweddau.
- 3: Defnyddio'r holl wasanaethau lleol i gefnogi disgyblion lle bo angen.

A all pob disgybl adrodd yn ôl i aelod o staff ar unwaith;
Os caiff unrhyw sylwedd/paraphernalia eu darganfod ar safle'r ysgol.

Unrhyw ddisgybl sy'n ymddangos dan ddylanwad sylweddau ac sydd angen cymorth ar unwaith.

I gael cymorth pellach a chynghor cyffredinol, mae croeso i chi siarad â swyddog dynodedig yr ysgol:

.....

Sefydliadau sy'n cefnogi:

Gwent N-gage

Cefnogaeth cyffuriau ac alcohol i bobl ifanc ar draws Gwent

www.choices.cymru / 0333 320 2751

Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru

www.dan247.org.uk / 0808 808 2234

FRANK

Cyngor cyfeillgar a chyfrinachol i gefnogi unigolion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau

www.talktofrank.com / 0300 123 6600

Helpa Fi i Stopio

Cymorth am ddim i helpu i roi'r gorau i ysmygu

www.helpmequit.wales/cy/ 0333 320 2219

Islawr Coed Duon

Canolfan galw heibio gwybodaeth sydd ar agor i bawb 11-25 oed ac sy'n darparu cefnogaeth a chynghor proffesiynol.

01495 235511 / @youth4u1